

## Nant Gwrtheyrn – Gweithio Tuag at Ddyfodol Gwell

Mae Nant Gwrtheyrn “y Nant” yn ganolfan dreftadaeth a chynadledau sy’n cynnig cyrsiau Cymraeg (ail iaith) i ddysgwyr. Mae yna letyai hanesyddol, arddangosfa hanes pentref chwarel Porth y Nant, a chaffi ar y safle. Mae mynediad i’r safle a pharcio am ddim, ac felly mae’r ganolfan dreftadaeth a chynadledau ar gael i bawb.



Bu’r safle’n gweithredu’n gynaliadwy eisoes gan eu bod yn gweithredu’n hollol ddwyieithog, yn hyrwyddo diwylliant, treftadaeth a’r iaith Gymraeg, defnyddio ynni adnewyddadwy sydd yn cynnwys pwmp gwres ffynhonnell aer, biomas ac ynni solar, ac yn gwahanu ailgylchion i sicrhau fod yr ansawdd gorau o ailgylchu yn cael ei greu. Mae’r safle hefyd gyda pholisi amgylcheddol, polisi iaith a pholisi cydraddoldeb mewn lle, cwblhawyd cwrs RCS ‘Lles ar gyfer Gweithio’ yn ddiweddar iawn, ac mae’r caffi yn defnyddio cyflenwyr lleol yn ogystal ag yn cynnig opsiynau llysiuol, fegan a heb glwtyn.



Fel un o safleoedd #ecoamgueddfa Llyn sy’n rhan o brosiect LIVE, mae Nant Gwrtheyrn wedi ymrwmo i wella eu harferion gwaith ymhellach gyda chymorth Medra Consultancy. Yn defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol fel fframwaith i asesu pa welliannau i flaenoriaethu, bu Nant Gwrtheyrn yn gweithio’n galed i sicrhau fod y safle’n fwy cynaliadwy nac erioed.

Penderfynwyd creu cod llesiant, cod eco, datganiad di-bapur a datganiad amgylcheddol i ymwelwyr sydd yn aros yn y lletyai, er mwyn hyrwyddo’r arferion da yma i ymwelwyr. Mae Nant Gwrtheyrn hefyd wrthi’n paratoi i gynnwys casgliadau gwastraff bwyd, yn creu dogfen arweiniad caffael ac yn ymchwilio i mewn i ariannu gorsafodded gwefru ceir trydan.

